# Cynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - beth i'w hystyried

## Y Pedwar Diben

◇ Dysgwyr uchelgeisiol, galluog ◇ Cyfranwyr blaengar, creadigol ◇ Dinasyddion moesol a gwybodus ◇ Unigolion iach a hyderus

## Datblygiad ysbrydol

◇ Ymwybyddiaeth o'u hunain mewn perthynas ag eraill ◇ Cysylltiadau â'r byd ehangach a naturiol ◇ Creadigrwydd a mynd tu hwnt i bob dydd
◇ Archwilio'r cwestiynau eithaf ac ystyriaeth o ystyr a phwrpas

## Meysydd Dysgu a Phrofiad

### Y Dyniaethau

| Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig: | Is-lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
|---|---|
| 1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | 1. Chwilio am ystyr a phwrpas<br>2. Y byd naturiol a phethau byw |
| 2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | 3. Hunaniaeth a pherthyn |
| 3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, yn cael ei ddylanwadu arno gan brosesau a gweithredoedd dynol. | 4. Awdurdod a dylanwad |
| 4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. | 5. Perthnasoedd a chyfrifoldeb<br>6. Gwerthoedd a Moeseg |
| 5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon a moesegol | 7. Taith bywyd |

### Sgiliau Hanfodol

- Creadigrwydd ac Arloesi
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

### Sgiliau trawsgwricwlaidd

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd Digidol

### Themâu trawsbynciol

- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
- Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth
- Perthnasoedd ac addysg rhywioldeb

### Cysylltiadau gyda Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Awdurdod; cred; perthyn; dathlu; cymuned; diwylliant; cynefin; marwolaeth; gwahaniaethu; amrywiaeth; cydraddoldeb; moeseg; eithafiaeth; ffydd; rhyddid; da a drwg; dynoliaeth; hunaniaeth; rhyngysylltiadau; cyfiawnder; gwybodaeth; bywyd; safiad bywyd; crefydd byw; ystyr; moesoldeb; gwreiddiau; plwraliaeth; ymarfer; rhagfarn; pwrpas; perthnasau; crefydd; crefyddolrwydd; cyfrifoldeb; hawliau; defod; cysegredigrwydd; secwlaredd; hunan; cam cymdeithasol; ffynonellau awdurdod; ysbrydolrwydd; cynaliadwyedd; symbolaeth; goddefiad; traddodiad; gwir; realiti eithaf; gwerthoedd; bydolygon; addoli.

## Cynnydd

| 3 Oed | Ar gyfer dysgwyr iau (Cam 1) | Ymhellach ar hyd eu taith (Camau 2/3) | Yn hwyrach ymlaen (Camau 4/5) | 16 Oed |
|---|---|---|---|---|

© Copyright St Giles' Centre, 2024

# Cynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - beth i’w hystyried

**Canllaw Defnyddwyr:**

Mae cynllunio gofalus ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dull ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei sefydlu’n briodol ar draws y cwricwlwm.

O ganlyniad, mae Canolfan San Silyn wedi datblygu’r adnodd cynllunio enghreifftiol hwn. Lluniwyd yr adnodd i amlygu’r ystyriaethau cynllunio sylweddol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gefnogi ysgolion i ystyried canllawiau a maes llafur cytunedig lleol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru.

Gellir diwygio’r enghraifft hon er mwyn galluogi defnyddwyr i’w theilwra i fodloni anghenion unigol yr ysgol neu’r lleoliad. Mae Canolfan San Silyn yn croesawu adborth ar ddefnyddioldeb yr enghraifft hon, a byddent yn croesawu derbyn enghreifftiau eraill y mae ysgolion yn eu defnyddio wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyniad Cwricwlwm i Gymru.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut gellid defnyddio’r enghraifft hon, cysylltwch â Chanolfan San Silyn.

© Copyright St Giles’ Centre, 2024